# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Glangarnant**

**Glan Garnant**
**Heol Neuadd**
**Rhydaman**
**SA18 1UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Glangarnant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Arkash Management Consultants Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Medi 2022 a 21 Medi 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael profiadau cadarnhaol yng Nghartref Gofal Glangarnant. Maent yn cael gofal mewn modd cynnes a charedig gan dîm o staff gofal cyson, cyfeillgar ac ymroddedig. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac yn mwynhau cymdeithasu ag eraill. Mae'r staff gofal yn parchu arferion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn gyfredol ac yn amlinellu anghenion gofal y bobl a'r ffordd y maent am gael eu gofal. Mae gan y cartref gysylltiadau da â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sy'n hybu iechyd a llesiant y bobl.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cynnwys cyfleusterau priodol i ddiwallu anghenion y bobl. Caiff yr ardaloedd dan do ac awyr agored eu huwchraddio'n rheolaidd. Mae'r ardd ganol wedi cael ei datblygu'n ddiweddar ac mae'n cynnwys nifer o nodweddion diddorol ac ysgogol. Mae'r safle yn lân ac mewn cyflwr da.

Gall y bobl leisio eu barn am sut mae'r cartref yn cael ei redeg. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn gwerthfawrogi barn y bobl ac yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth lle bo angen. Mae diwylliant cadarnhaol yn bodoli ymhlith y tîm o staff, sy'n cyfrannu at amgylchedd hamddenol a chroesawgar y cartref. Mae'r staff yn fodlon ar eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu parchu. Cânt eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Rhoddir gwybodaeth iddynt mewn fformat priodol i'w galluogi i wneud penderfyniadau. Dywedodd un person wrthym, *“I picked this place because it’s right for me”*. Mae'r staff gofal yn deall yr hyn sy'n bwysig i'r bobl a sut i gyfathrebu'n effeithiol â nhw. Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n rhagweithiol. Caiff y bobl eu gwahodd i gyfarfodydd lle y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, fel newidiadau i'r fwydlen. Caiff eu barn am y gwasanaeth ei cheisio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei ymweliadau ffurfiol ac wrth gynnal adolygiadau o ansawdd y gofal. Caiff teuluoedd a ffrindiau groeso cynnes i'r cartref a chânt eu gwahodd i rannu eu barn hefyd. Mae'r rheolwr sy'n ymdrin â chwynion yn brydlon ac yn briodol.

Caiff llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl eu hystyried. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ganddynt am eu profiadau yn y cartref. Dywedodd un person, *“I’ve got nothing but absolute praise for these people… I’d give it twenty out of twenty”.* Mae'r bobl yn mwynhau rhyngweithiadau da â'r staff gofal, sy'n garedig ac yn ystyried eu hanghenion. Dywedodd un perthynas, *“They truly are marvellous here; I can’t fault them at all”*. Mae'r staff gofal yn gweithio'n agos gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal gorau posibl. Caiff yr asesiadau risg a'r cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae gan y bobl bethau i edrych ymlaen atynt, fel partïon a theithiau i glybiau lleol. Mae'r staff gofal yn cynnig diodydd a byrbrydau rheolaidd i'r bobl er mwyn cefnogi eu hiechyd a'u maeth.

Mae systemau ar waith i helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Caiff safonau'r gwasanaeth eu monitro'n barhaus gan ddefnyddio systemau archwilio mewnol. Mae'r rhain yn helpu i nodi risgiau i ddiogelwch a llesiant y bobl, ynghyd ag agweddau ar y gwasanaeth y gellid eu gwella. Mae'r rheolwr yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth yn dilyn cyngor gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol amrywiol. Buddsoddir yn barhaus yn y gwasanaeth ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei redeg yn effeithiol. Caiff staff eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol. Mae digon o staff yn y cartref i sicrhau bod y bobl yn cael gofal priodol ac ymatebol. Mae'r cartref a'i gyfleusterau yn ddiogel a chânt eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Mae'r bobl yn byw mewn llety dymunol a chyfforddus. Maent yn elwa ar waith uwchraddio amrywiol dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl yn fodlon ar eu hystafelloedd unigol ac yn mwynhau cymdeithasu ac ymlacio gydag eraill yn y lolfa gymunedol a'r ardaloedd bwyta. Mae nifer o'r ystafelloedd yn cynnig golygfeydd o'r ardd ddeniadol. Mae'r cartref yn defnyddio gwasanaeth bws mini wythnosol er mwyn galluogi'r bobl i dreulio amser yn y gymuned.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn cynnal asesiadau er mwyn sicrhau bod y cartref yn addas i'r bobl cyn iddynt symud i mewn. Rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig i'r bobl hefyd, a gaiff ei chynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae datganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig yn esbonio'n glir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu a sut mae'n ei ddarparu. Mae'r rhain yn ddogfennau llawn gwybodaeth sydd wedi cael eu cyflwyno'n effeithiol. Dywedodd un person, "*I thought it sounded too good to be true but it's very accurate".* Mae'r staff gofal yn cyfathrebu â'r bobl yn effeithiol, gan ddefnyddio lluniau os oes angen er mwyn helpu'r bobl i wneud penderfyniadau. Clywsom y bobl yn sgwrsio'n rheolaidd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Caiff y bobl eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol. Mae'r rhain yn nodi sut y gall y staff gofal ddiwallu anghenion gofal y bobl a bodloni eu dewisiadau yn ddiogel. Caiff diddordebau a chefndiroedd y bobl eu hadlewyrchu'n fanwl yn y dogfennau *'Me, Myself and I'.* Caiff y bobl a/neu eu cynrychiolwyr eu gwahodd i adolygu'r trefniadau gofal a chymorth bob tri mis. Mae'r rheolwr yn gweithio gyda'r staff i sicrhau bod yr adolygiadau hyn yn cael eu cofnodi mewn ffordd gyson. Caiff y cynlluniau personol eu haddasu yn ôl yr angen fel eu bod yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl yn gywir. Mae'r gwasanaeth yn dilyn Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) er mwyn sicrhau na chaiff y bobl eu rhwystro'n anghyfreithlon.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon dda. Mae'r cofnodion gofal a'r siartiau ategol yn dangos bod y bobl yn cael y lefel gywir o ofal, fel yr amlinellir yn eu cynlluniau personol. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i wneud pethau drostynt eu hunain, ond maent hefyd yn cydnabod pan fydd angen cymorth arnynt ac yn ei ddarparu mewn ffordd urddasol a pharchus. Dywedodd y bobl wrthym, *"Nothing is too much trouble"* ac *"All the carers are very good; very gentle and patient".* Mae'r staff gofal yn cwrdd â gweithwyr proffesiynol o wasanaethau iechyd lleol bob wythnos i drafod unrhyw bryderon am iechyd a llesiant y bobl a mynd i'r afael â nhw. Dywedodd y bobl wrthym fod y rheolwr yn trefnu ymweliadau gan optegydd a deintydd y gymuned, a'u bod yn cael budd o hyn. Mae'r bobl yn cael cymorth priodol yn ystod amseroedd bwyd a chynigir diodydd a byrbrydau iddynt yn rheolaidd. Dengys y cofnodion fod y bobl yn cael y feddyginiaeth a ragnodwyd ar eu cyfer yn gyson. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio a'u rheoli'n ddiogel.

Mae'r bobl yn mwynhau byw yn y cartref. Mae ganddynt reolaeth dros eu gweithgareddau o ddydd i ddydd gan fod y staff gofal yn cefnogi eu harferion unigol. Siaradodd y bobl mewn ffordd hoffus am y staff gofal. Dywedodd un person, *"They're unbelievable",* a chadarnhaodd un o'r ymwelwyr hyn gan ddweud,*"This is a lovely place. They really are so kind and caring"*. Clywsom lawer o chwerthin a sgyrsiau rhydd, a nifer o jôcs yn cael eu rhannu. Mae gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'r bobl ar gael iddynt, gan gynnwys therapi anifeiliaid anwes, prynhawn ffilm, adloniant byw a theithiau bws wythnosol. Mae'r amseroedd bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol a hamddenol. Gall y bobl ddewis o

fwydlen amrywiol, sydd ar gael yn ysgrifenedig ac ar ffurf lluniau. Maent yn helpu i ddatblygu bwydlenni newydd yn ystod cyfarfodydd i breswylwyr.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar ac mae nifer o nodweddion cartrefol yno. Er enghraifft, mae sioe sleidiau o luniau o'r bobl yn mwynhau gweithgareddau amrywiol yn cael ei arddangos yn ardal y dderbynfa. Ceir hysbysfwrdd sy'n hyrwyddo geiriau ac ymadroddion Cymraeg hefyd. Mae'r holl ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Mae canllawiau a lliwiau gwrthgyferbyniol yn helpu'r bobl i symud yn rhydd ac yn ddiogel ar hyd y coridorau. Mae lleoliad a chynllun yr ystafelloedd wedi cael eu hystyried yn ofalus er budd y rhai sy'n wynebu risg o fod yn ynysig yn gymdeithasol. Mae gan nifer o'r ystafelloedd ffenestri sy'n wynebu'r ardd ganol, sy'n darparu golygfeydd dymunol. Mae'r ystafelloedd preifat yn adlewyrchu'r bobl, ac mae nifer yn cynnwys eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae'r ardd wedi cael ei datblygu'n ddiweddar ac mae'n cynnwys nodweddion diddorol, gan gynnwys planhigion a blodau amrywiol, ornamentau a nodweddion dŵr. Mae dodrefn gardd newydd wedi'u prynu ar gyfer y patio hefyd. Mae'r gwelyau blodau uchel yn galluogi'r bobl i dyfu a meithrin planhigion a pherlysiau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau eu hamser yn yr ardd a'u bod yn aml yn gwylio'r adar ar y byrddau bwyta sydd wedi'u gosod mewn mannau strategol.

Mae'r cartref yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae trefniadau cynnal a chadw effeithiol ar waith i sicrhau bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn brydlon. Mae cofnodion yn cadarnhau bod y cyfarpar a'r cyfleustodau yn ddiogel a'u bod wedi cael eu harchwilio a'u gwasanaethu o fewn yr amserlenni a argymhellir. Mae'r rheolwr yn monitro safonau amgylcheddol yn ystod archwiliadau mewnol, ac mae'r rhain hefyd yn cael eu hadolygu gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei ymweliadau ffurfiol. Gwelsom y caiff cemegion eu storio'n ddiogel ac y cyfyngir ar fynediad i ardaloedd peryglus. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod gan y bobl gloch alw i'w galluogi i alw am gymorth os oes angen. Gellir cael gafael ar y Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) yn gyflym. Caiff y cyfarpar diogelwch tân ei brofi'n rheolaidd, ac mae'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd. Maent hefyd yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch tân, cymorth cyntaf a Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Mae'r cartref yn hyrwyddo arferion hylendid da. Gwelsom fod yr ystafelloedd preifat a'r ystafelloedd cymunedol yn lân ac yn daclus. Mae'r amserlenni glanhau yn sicrhau bod yr holl ardaloedd yn cael eu glanhau'n drylwyr yn rheolaidd. Mae'r ystafelloedd cawod a'r toiledau yn hygyrch ac mae'r gwasanaeth wedi prynu cyfarpar newydd i gefnogi'r bobl yn well wrth gael cawod. Mae un bath ar gael, ond dim ond ychydig o bobl all ei ddefnyddio'n hawdd ac yn gyfforddus. Cydnabu'r Unigolyn Cyfrifol y byddai gosod bath arall yn lle'r hen un yn galluogi mwy o bobl i ddewis rhwng cael bath neu gawod. Mae'r rheolwr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. Gwelsom gyflenwad da o gyfarpar diogelu personol, y mae'r staff yn ei ddefnyddio'n briodol. Dyfarnwyd sgôr hylendid bwyd o 4 (da) i'r cartref ym mis Ebrill 2024. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar hylendid bwyd a rheoli heintiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r cartref yn elwa ar arweinyddiaeth a rheolaeth gref. Mae'r rheolwr wedi creu diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth. Caiff llesiant y bobl ei flaenoriaethu, ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau. Gwelsom fod y morâl yn uchel, wrth i nifer o'r staff siarad yn falch am yr ymdeimlad cryf o waith tîm ac arweinyddiaeth gyson. Dywedodd un person wrthym fod y rheolwr yn *"always acknowledge you"* a dywedodd un aelod o'r staff, *"If you've got a problem, you go straight to her and she sorts it".* Mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd i drafod eu rôl a'u cyfrifoldebau. Maent yn teimlo'n gyfforddus i siarad yn ystod cyfarfodydd unigol a chyfarfodydd grŵp. Caiff cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu staff eu cynnal yn amlach er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r staff fyfyrio ar eu perfformiad a'u cydberthynas â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff cyfarfodydd i'r preswylwyr a'u perthnasau eu trefnu hefyd, sy'n galluogi'r bobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir am fywyd yn y cartref.

Mae'r bobl yn cael parhad gofal da. Mae tîm o staff sefydlog ar waith yn y gwasanaeth ac mae aelodau eraill o'r tîm yn cyflenwi yn ystod absenoldebau. Dengys y rotas fod y lefelau staffio yn cael eu cynnal yn unol â datganiad o ddiben y cartref. Dywedodd y staff wrthym fod hyblygrwydd o ran patrymau shifft a bod digon o staff yn ystod y dydd a'r nos i ddarparu'r lefel o ofal sydd ei hangen ar y bobl. Mae'r gweithdrefnau recriwtio yn gadarn ac yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal gan weithlu addas. Mae'r staff yn cwblhau rhaglen sefydlu briodol a chânt eu cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Maent yn fodlon ar ansawdd eu hyfforddiant gorfodol ac arbenigol, a dywedwyd ei fod yn dda iawn ac yn gyson. Caiff anghenion hyfforddiant a datblygiad y staff eu trafod yn ystod y cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu.

Caiff ansawdd y gwasanaeth ei fonitro'n agos gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae archwiliadau clinigol misol yn helpu'r rheolwr i nodi a lleihau risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn ystyried canlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol yn ystod ymweliadau ffurfiol ac adolygiadau o ansawdd y gofal. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag argymhellion a wneir gan asiantaethau amrywiol. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol fod y rheolwr yn *"very passionate"* a *"hardworking"*. Mae'r rheolwr yn ymateb i gwynion yn unol â pholisi'r cwmni, ond mae'r system ffeilio bresennol yn ei gwneud hi'n anodd cadarnhau'r camau gweithredu a'r canlyniadau. Cytunodd y rheolwr i fynd i'r afael â hyn. Mae canfyddiadau arolygon ansawdd diweddar yn dangos bod y bobl yn cael profiadau cadarnhaol yn y cartref. Gwelsom nifer o gardiau a llythyrau yn diolch i'r staff am y gofal y maent wedi'i ddarparu.

Gwneir buddsoddiad clir yn y gwasanaeth. Mae swyddi gwag ymysg y staff wedi cael eu llenwi er mwyn sicrhau bod y cartref yn gweithredu ag adnoddau staffio digonol. Mae'r cartref hefyd yn elwa ar waith uwchraddio parhaus. Er enghraifft, mae cypyrddau cegin

newydd wedi cael eu gosod yn un o'r ystafelloedd bwyta, mae systemau diogelwch tân gwell wedi cael eu gosod ac mae lloriau newydd wrthi'n cael eu gosod yn yr ystafelloedd gwely. Mae cynlluniau hefyd i osod llawr newydd yn un o'r ystafelloedd bwyta a sicrhau bod llwybrau'r ardd yn wastad er mwyn gwneud yr ardal batio yn fwy hygyrch.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod adolygiadau yn cael eu cynnal o'r cynlluniau personol sy'n ystyried i ba raddau y mae canlyniadau personol y bobl yn cael eu cyflawni a'u bod yn cynnwys yr unigolyn, ei gynrychiolydd (os yw'n berthnasol) a'r awdurdod lleoli. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio bob tri mis nac arfarniadau blynyddol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/08/2024